Sarah Jane Rees, 'Cranogwen', 1839–1916
Ysgolfeistres, bardd, golygydd, a dirwestwr

Carodd ei chenedl â'r cariad dihalog
Roes nodau y nefoedd ar bopeth a wnaeth;
Anturiodd i'r frwydr heb ofni na bidog
Niweidiol y sennwr, na gwenwyn ei saeth.
Oferedd y Ddiod nithiai'n ddifloesgni,
Gwaharddai a hyrddia fyrddiynau i fedd.
Werin ei thraserch! a gofi di ynni
Efengyl y Forwyn yn nos dy gyni
Nes teimli di chwerthin y Wawr ar dy wedd.

J.D. Richards

Yr oedd Cranogwen yn gymeriad unigryw yng Nghymru mewn cyfnod lle nad oedd merched yn cael datblygu eu doniau na bod yn flaengar yn gyhoeddus. Hanai o Langrannog, Ceredigion, lle y'i ganed ar 9 Ionawr 1839. Fel llawer un a fagwyd ar arfordir Cymru yr oedd yr heli yn ei gwaed. Capten llong oedd ei thad a oedd yn awyddys i'w ferch gael pob mantais addysgol. Gwraig dawel oedd ei mam a ymddiddorai mewn barddoni, nodwedd a etifeddodd ei merch maes o law. Yn anochel un o'r dylanwadau mwyaf ar y plant mewn teulu capten llong yw'r fam, ac roedd hynny'n sicr yn wir yn hanes Cranogwen. Derbyniodd ei haddysg gynnar yn ysgol y pentref dan arweiniad Hugh Davies. a oedd i bob golwg yn athro da. Llwyddodd i feithrin diddordeb mawr mewn addysg ynddi a dysgodd iddi elfennau morwriaeth ac ychydig o Ladin. Yna aeth hi i ysgolion yn Aberteifi a Cheinewydd.

Wedi hynny fe'i cynghorwyd i ddysgu gwnïo ond ni allai ddygymod â'r grefft o gwbl. Yr oedd yn gas ganddi wnïo a pharhaodd yr atgasedd hwn ynddi trwy gydol ei hoes. O ganlyniad aeth i forio gyda'i thad am ysbaid o ddwy flynedd. Yr oedd ei

chariad at y môr cymaint fel yr aeth i goleg yn Llundain i ddysgu am fordwyaeth a gwyddorau eraill a ystyrid yn gwbl anaddas i ferch. Dychwelodd i Langrannog lle y bu'n athrawes yn yr ysgol fel olynydd i H. Davies. Yno byddai'n addysgu plant yn bennaf ond hefyd deuai bechgyn a'u bryd ar y môr ati i ddysgu am fordwyaeth. Tystiodd llawer capten llong yn ddiweddarach eu bod yn ddyledus iddi am ei harweiniad.

Yr oedd ganddi ddiddordeb hefyd mewn barddoni a bu'n cystadlu'n gyson dros y blynyddoedd gan ennill cystadlaethau lawer. Cafodd bluen yn ei chap yn eisteddfod Aberystwyth ym 1865 pan enillodd wobr gyda'i chân i'r "Fodrwy Briodasol", gan guro beirdd fel Ceiriog ac Islwyn.

Trwy anogaeth gŵr o'r enw Mr Felix cychwynnodd ar yrfa fel darlithydd ym 1865, ac yn ystod y blynyddoedd dilynol teithiodd trwy Gymru ac America yn traddodi. Yr oedd ei meddwl craff, ei huodledd a'i hiwmor yn hudo cynulleidfaoedd ac o gnlyniad i hyn fe leddfodd y rhagfarn yn erbyn merched yn cymryd rhan yn gyhoeddus. Mewn gwirionedd agorodd y drws i ferched eraill gamu allan yn gyhoeddus. Siaradai ar destunau amrywiol fel "Arian ac Amser", "Ann Griffiths", a "Cymru – ei chrefydd a'i haddysg". Bu hefyd yn olygydd cylchgrawn *Y Frythones*, am ddeng mlynedd (1879–89); dyma'r unig gyhoeddiad Cymraeg i ferched ar y pryd. Ymrôdd Cranogwen i'r gwaith â'i holl galon oherwydd gresynai pa mor arwynebol oedd bywydau llawer o ferched; nid oedd y mwyafrif ohonynt yn mwynhau unrhyw fanteision addysgol.

Bu hefyd yn pregethu ac yr oedd hyn eto'n beth anarferol i ferch ei wneud bryd hynny. Yn wir, bu gwrthwynebiad iddi ymhlith y Methodistiaid. Aeth ati yn ystod ei blynyddoedd olaf i sefydlu Undeb Dirwestol Merched y De a chychwynodd ym 1901. Trwy'r mudiad hwn rhoddodd gyfle i ferched feithrin eu doniau a'u hyder. Bu farw 27 Mehefin 1916.